**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD IONAWR 2023**
16 Ionawr 2023 7.30 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths, June Jones, Bethan Gritten, Siân Cwper

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 3. Ymddiheuriadau

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Misol 7 Tachwedd 2022

**Cynnig:** Elin Jones

**Eilio:** Nia Povey

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Cais Cynllunio Garreg Frech

Mi fydd hi'n debygol o fod ym mis Mawrth o leiaf cyn y bydd y Parc yn barod i ystyried y cais cynllunio, gan fod nifer o ystyriaethau y mae'n rhaid eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar y cais.

### 5.2 Y Ganolfan

Mae'r tŷ bach cyntaf yn rhydd, ac mae tanc dŵr yr ail un yn gollwng.

Bydd angen trefnu plymar i wneud y gwaith trwsio.

Mae costau cyflenwi trydan Y Ganolfan wedi cynyddu'n sylweddol. Gofynnwyd i'r Clerc weld os oes unrhyw dariff arall rhatach ar gael.

Cytunwyd i holi Mantell Gwynedd i weld os oes grant ar gael ar gyfer gosod paneli solar ar do'r Ganolfan.

Cysylltwyd â'r ysgol i bwysleisio'r angen i gael mynediad i'r Ganolfan ar bob amser. Awgrymwyd fod y giât bresennol yn cael ei symud a'i gosod yn agosach i'r ysgol fel nad yw'n effeithio ar fynediad i'r Ganolfan.

Cytunodd y Cynghorydd June Jones i godi'r mater yma yng nghyfarfod llywodraethwyr nesaf yr ysgol.

Mae defnyddiwr wedi dangos diddordeb i gynnal sesiynau Yoga yn Y Ganolfan. Bydd mewn cysylltiad pan am ddechrau. Cytunwyd i godi £10 am awr a hanner ac ail edrych ar y ffi rai wythnosau yn y dyfodol.

Ni fu cais Cyfeillion Croesor am grant o'r gronfa Croeso Cynnes i ddefnyddio'r Ganolfan fel lle i bobl fedru dod at ei gilydd am gysgod, sgwrs neu baned yn llwyddiannus.

### 5.3 Goryrru Llanfrothen a gosod cyflymder 20 mya

Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd pryd y bydd y marciau ffordd i arafu traffig yn cael eu gosod. Mae Cyngor Gwynedd i holi eu contractwyr.

Mae'r mapiau fydd yn mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn fuan ar gyfer nodi'r ffyrdd hynny fydd yn troi yn 20 mya wedi eu rhannu efo cynghorau cymuned.

Ym mhentref Llanfrothen bydd y cyflymder yn newid i 20 mya a hefyd ffordd Garreg hyd at yr ysgol.

### 5.4 Maes Chwarae Llanfrothen

Mae'r Cynghorydd Bethan Gritten wedi cael tua 18 o ymatebion i'r holiadur maes chwarae, a bydd yn crynhoi'r ymatebion ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod nesaf y cyngor cymuned.

### 5.5 Mynwent Tan Lan

Mae angen gwneud asesiad risg o'r fynwent, yn enwedig o'r cerrig beddi.

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am gyflwr y fynwent, yn enwedig o gwmpas y cerrig beddau sydd ym mhendraw'r fynwent.

Gofynnwyd i'r Clerc ddiolch i'r achwynydd am fynegi ei phryderon, a nodi y gobeithir sefydlu grŵp o wirfoddolwyr i dacluso'r fynwent yn y gwanwyn, ac y bydd y cyngor cymuned yn cadw golwg ar y sefyllfa.

Cytunwyd gofyn i Dylan barhau i dorri'r gwair am 2023 am £1800, yr un sail a'r llynedd, sef 6 toriad y flwyddyn o gwmpas y cerrig beddi, a 2 doriad o weddill y fynwent yn gyffredinol. Hefyd gofyn iddo nodi pryd bydd pob toriad, a hefyd torri ochr y llwybrau a rhoi sylw i'r rhesi rhwng yr hen feddi.

Cytunwyd i drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Mawrth ac ystyried sut i ffurfio grŵp o wirfoddolwyr.

### 5.6 Clymog Siapan, Pont Haearn, Afon Caseg

Cafwyd ateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi mai perchennog y tir sydd bron bob tro yn gyfrifol am reoli twf clymog Siapan, a dydy Cyfoeth Naturiol Cymru ddim yn gyfrifol am ar lethr yr Afon Caseg.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru a gofyn a fyddent yn fodlon mynd at y perchennog tir a gofyn iddo ddelio a'r mater.

### 5.7 Artro Llanfrothen

Oherwydd deddfwriaeth diogelu data, ni all Gyngor Gwynedd ddweud os danfonwyd llythyr at berchnogion yr eiddo yn gofyn a fyddai ganddynt ddiddordeb gwerthu'r tŷ gan ei fod yn eiddo gwag.

Fodd bynnag, mae Cyngor Gwynedd yn danfon llythyrau fel norm at berchnogion eiddo gwag yng Ngwynedd, er mwyn gofyn a oes ganddynt ddiddordeb gwerthu i Gyngor Gwynedd, ac felly mae'n debygol y byddai perchennog yr eiddo wedi cael llythyr o'r fath.

### 5.8 Cyfethol Aelodau

Mae'r cyngor cymuned yn parhau efo tair sedd wag, ac un person wedi dangos diddordeb, sef Cen ap Tomos, Sycharth, Llanfrothen, LL48 6DT.

Cytunwyd i'w gyfethol

**Cynnig:** Bethan Gritten

**Eilio:** Elin Jones

### 5.9 13 Garreg Frech

Cytunodd y Cynghorydd June Jones gysylltu efo Parc Cenedlaethol Eryri, er mwyn gweld a fedrant gymryd camau gorfodaeth oherwydd cyflwr blêr yr eiddo.

### 5.10 Cynllun Hyfforddiant

Cytunwyd i gymeradwyo'r Cynllun Hyfforddiant a luniwyd gam y Clerc. Mae'r cynllun yn ddogfen fyw, ac felly bydd yn medru newid ac esblygu dros amser.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Elin Jones

## 6. Materion Ariannol

**6.1** Cyflog Clerc Tachwedd 2022 £239.72

TWE £59.80

**6.2** Cyflog Clerc Rhagfyr 2022 £239.72

TWE £59.80

**6.3** Tâl claddu llwch M. Kerr Anfoneb 17 Rhagfyr 2022 £80.00

**6.4** Anfoneb Argraffdy Eryri, cynlluniau ar gyfer cyfarfod cyhoeddu6 £57.60

**6.5** Anfoneb Dafydd Jones peintio'r Ganolfan 10/11/2022, £2933.87

**6.6** Anfoneb Scottish Power 30 Rhagfyr 2022, gwir ddarlleniad £159.15

**6.7** Anfoneb Dylan Edwards 3 Ionawr 2023 - torri gwair ym mynwent Tan Lan, 2022, £1800.00

**6.8** Costau HSBC £18.00

**6.9** Balans yn y prif gyfrif 13 Ionawr 2023 £17,821.79

Balans yn y cyfrif cadw 13 Ionawr 2023 £21,163.17

**7. Gohebiaeth**

Dim

**8. Cynllunio**

Dim

**9. Materion Eraill**

**9.1 Cytuno ar Braesept 2023/24**

Cytunwyd i gynyddu'r Praesept £1,000 i £10,300 yn bennaf oherwydd chwyddiant.

**9.2 Dyfodol Cymunedau Cymraeg – Ymgynghoriad**

Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn ymgynghori ar ffyrdd i gryfhau cymunedau Cymraeg. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 13 Ionawr 2022, ac fe gytunwyd y gallai aelodau ymateb yn unigol.

**9.3 Ymgynghoriad ar Strategaethau Hybu'r Gymraeg, Parc Cenedlaethol Eryri**

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ymgynghori ar eu Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 3 Chwefror 2022 ac fe gytunwyd y gallai aelodau ymateb yn unigol.

**9.4 Cyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw**

Cyfarfu'r Cynghorwyr Nia Povey a Glyn Griffiths efo Ymddiriedolwyr Brondanw.

Trafodwyd gosod cysgodfan fws dros y ffordd i dafarn y Ring ger y fainc. Bydd angen i'r cyngor cymuned wneud dyluniad cychwynnol, a bydd yr Ymddiriedolaeth yn fodlon rhoi cyfraniad at gost yr gysgodfan. Bydd angen sicrhau pwy sydd berchen y tir, nid yw hi'n sicr os mai stad Brondanw sydd ei berchen.

O ran y cynllun Hydro, does dim elw wedi ei wneud eleni. Bydd cyfraniad o'r elw i'r gymuned pan fydd y cynllun yn gwneud elw.

Bydd Ymddiriedolwyr Brondanw yn danfon llythyr i Barc Cenedlaethol Eryri efo sylwadau ar ddatblygiad ADRA yng Ngharreg Frech.

### 9.5 Adroddiad Cyfarfod Ardal Ni 2035

Mynychodd y Cynghorydd Elin Jones a'r Cynghorydd June Jones gyfarfod o Ardal Ni 2035 a gynhaliwyd ym Mhorthmadog. Y prif faterion a godwyd oedd angen am waith, tai a gwell trafnidiaeth a llwybrau cerdded. Bydd digwyddiadau pellach yn y dyfodol.

### 9.6 Tafarn y Ring

Mae tafarn Y Ring ar hyn o bryd yn wag. Mae'r Cynghorydd Siân Cwper wedi gofyn i Ymddiriedolaeth Brondanw am amodau'r les i gwmni Robinsons, sy'n para tan 2052, er mwyn gweld a fyddai'n bosibl trosglwyddo'r eiddo yn ôl i Stad Brondanw, a beth yw'r amodau o ran sicrhau fod y dafarn ar agor.

Cytunodd y Cynghorydd Elin Jones ysgrifennu at Robinsons yn mynegi siom fod y dafarn ar gau ac yn gofyn am eu bwriadau am y dafarn yn y dyfodol, a chopio Liz Saville Roberts AS a Mabon ap Gwynfor I'r llythyr

### 9.7 Newid amser cyfarfodydd

Cytunwyd yn unfrydol i newid amser cyfarfod y cyngor cymuned o 19:30 i 18:30.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6 Mawrth 2023**